## Rhaglen datblygu ymchwilwyr ar gyfer 25/26

Rydym wedi creu'r catalog hwn o weithdai i'ch helpu i gynllunio eich datblygiad fel ymchwilydd. Mae ein rhaglen bellach wedi'i mapio i Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae a ddiwygiwyd yn 2025, i'ch helpu chi fel ymchwilwyr i gynllunio, blaenoriaethu a monitro eich datblygiad eich hun. Dysgwch fwy am sut rydym yn defnyddio'r fframwaith yn Abertawe.

Edrycha ar y gweithdai a'r digwyddiadau sydd ar ddod a chadw lle ar y sesiynau perthnasol. Os na allwch ddod o hyd i ddolen archebu ar gyfer un o'r gweithdai yn y catalog, mae'n golygu eu bod yn digwydd yn semester two. Cyhoeddir manylion archebu ar gyfer y gweithdai hyn ym mis Ionawr bob blwyddyn.

| **Chi fel Ymchwilydd** | |
|---|---|
| **Teitl y gweithdy** | **Disgrifiad o'r gweithdy** |
| Rhoi hwb i'ch datblygiad: Cyflwyniad i'r Dadansoddiad o Anghenion Datblygu | Ydych chi'n dechrau ar eich ymchwil neu'n ystyried cofrestru ar gyfer hyfforddiant ond ddim yn siŵr beth sy'n iawn i chi? Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn cynnig cyflwyniad i'r broses Dadansoddiad o Anghenion Datblygu (DNA), a luniwyd i'ch helpu i fyfyrio ar eich sgiliau a'ch gwybodaeth unigol eich hun, pennu amcanion datblygu a llunio cynllun i ddatblygu'r rhain. Byddwn yn archwilio strwythur y ddogfen DNA ac yn edrych ar rai enghreifftiau. Bydd gennych amser i weithio ar eich myfyrdodau eich hun a dechrau llunio cynllun, gyda chymorth os oes angen. Mae'r gweithdy hwn ar agor i'r holl fyfyrwyr ymchwil - p'un a ydych chi wrthi'n dechrau ar eich gwaith ymchwil neu os oes angen amser arnoch chi i fyfyrio ar gam nesaf eich datblygiad. |
| Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil | Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor.<br><br>Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchiol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eich llwybr eich hun.<br><br>Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. |

| | |
|---|---|
| Cadw ar y trywydd iawn: rheoli amser, cynllunio a chymhelliant mewn ymchwil | Yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth cywir, mae angen i chi allu rheoli'ch hun a'ch amser a chadw eich cymhelliant er mwyn cwblhau prosiect ymchwil. Bydd llif a thrai naturiol wrth i chi ddilyn eich gradd ymchwil ac yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio syniadau ac offer gwahanol i'ch helpu i aros ar y trywydd iawn a gwneud cynnydd. Does dim ymagwedd benodol a fydd yn addas i bawb, felly byddwn yn cymryd amser i rannu profiadau a myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio orau i chi.<br><br>Mae'r gweithdy hwn yn ddelfrydol os ydych chi ar ddechrau eich astudiaethau ac yn meddwl am sut i ddefnyddio'ch amser orau, ond mae hefyd yn gyfle da i adnewyddu neu addasu pethau gyfer y rhai hynny yng nghamau diweddarach eu hastudiaethau. |
| Gorffen y traethawd ymchwil a pharatoi ar gyfer eich arholiad llafar | Nod y gweithdy hwn yw cefnogi myfyrwyr ymchwil drwy gamau olaf eu gradd. Rydym yn dechrau drwy ystyried yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni arholwyr yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar. Yna byddwn ni'n archwilio'r traethawd ymchwil ei hun: sut i gyflwyno a strwythuro eich gwaith a'r broses olygu. Yna'r arholiad llafar - beth i'w ddisgwyl, sut i baratoi ac ymarfer amddiffyn eich gwaith.<br><br>Mae hyn yn agored i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam yn eu hymgeisyddiaeth (ond yn fwy priodol ar gyfer y rhai sy'n agos at gwblhau) ac mae'n gwrs dynamig, rhyngweithiol.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br><br>• Dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei arholi yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar<br>• Sut i gynllunio ar gyfer cwblhau<br>• Sut i strwythuro a chyflwyno eich traethawd ymchwil wedi'i gwblhau<br>• Sut i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar, gan gynnwys trafod eich ymchwil ac ateb cwestiynau.<br><br>Sylwer, caiff y sesiwn ei rhannu’n ddwy ran. Bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn mynychu’r ddwy ran er bod croeso i chi ymuno â’r naill sesiwn neu’r llall. Bydd egwyl rhwng 11.30am a 12.00pm.<br><br>1. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 1. Y Traethawd Ymchwil 10.00am tan 11.30am<br><br>2. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 2. Yr Arholiad Llafar 12.00pm tan 1.30pm |
| Mae goruchwylio'n bwysig: Manteisio i'r | Mae eich perthynas â'ch goruchwyliwr yn un o'r agweddau pwysicaf ar eich gradd ymchwil, ac mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud er mwyn gwneud y berthynas hon mor llwyddiannus â phosibl. Yn y sesiwn hon, byddwn ni'n archwilio cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| eithaf ar berthnasoedd goruchwylio | goruchwylio, yr hyn sy'n creu cyfathrebu effeithiol a sut i fynd i'r afael ag adborth. Hefyd, byddwn ni'n edrych ar astudiaethau achos a bydd cyfle i geisio cyngor ar sut i wneud y gorau o'ch perthynas weithio chi â'ch goruchwylwyr.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Dealltwriaeth o'r hyn mae rôl y goruchwyliwr yn ei gynnwys, a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan eich goruchwylwyr<br>• Technegau i gynnal cyfarfodydd goruchwylio mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys derbyn adborth.<br>• Sut i gynyddu eich hyder i drafod a datrys problemau gyda goruchwyliaeth. |

| **Eich Ymchwil: Gwybodaeth ac Ymarfer** | |
|---|---|
| **Teitl y gweithdy** | **Disgrifiad o'r gweithdy** |
| Cylchgronau Academaidd: osgoi cyhoeddwyr ysglyfaethus | Mae'r pwysau i gyhoeddi'n fythol-bresennol i ymchwilwyr ac academyddion, ac ochr yn ochr â hyn, mae cynnydd wedi bod mewn 'cyfnodolion ysglyfaethus'. Gall y rhain ecsbloetio a thargedu unrhyw un, o awdur tro cyntaf yn gofyn iddo dalu i gyhoeddi, i academyddion profiadol er mwyn manteisio ar eu henwau da. Gallant ddefnyddio triciau bach megis defnyddio enwau tebyg neu frandio sydd bron gwmws yr un peth i roi argraff o ddilysrwydd.<br>Bydd y sesiwn hon yn trafod ffyrdd ymarferol o weld y gwahaniaeth, ac arwyddion rhybuddio i chwilio amdanynt wrth ddewis pa gyfnodolyn i gyflwyno eich gwaith iddo. |
| Cylchgronau Academaidd: dechrau cyhoeddi | Mae'r sesiwn hon yn esbonio sut mae'r broses yn gweithio, yr hyn y dylech chi ei wneud a phryd (e.e. cyhoeddi mynediad agored a'r angen am gyllid ar gyfer APC)<br>Mae cyhoeddi mewn cyfnodolion academaidd yn elfen allweddol o academia, ac yn gynyddol mae ymchwilwyr yn dechrau cyhoeddi'n gynharach yn eu gyrfaoedd, gan gynnwys penodau neu elfennau wedi'u hailweithio o'u traethodau PhD. Fodd bynnag, gall y broses wirioneddol o gyflwyno beri dryswch i'r rhai hynny sy'n dod ato o'r newydd. Nod y sesiwn hon yw eich cyflwyno i'r camau sylfaenol, o gyflwyno i gyhoeddi, a mynd i'r afael â rhai o'r termau a allai fod yn anghyfarwydd i awduron newydd, megis 'Tâl Prosesu Erthygl' |
| Cylchgronau Academaidd: mesur effaith ymchwil | Mae'r sesiwn hon yn ystyried y dulliau a ddefnyddir i fesur effaith ymchwil sy'n datblygu, gan gynnwys bibliometreg, sy'n gallu |

| | |
|---|---|
| | cynnwys cyfraddau dyfynnu, cyfraddau cyhoeddi a chydweithio sefydliadol.<br>Mae llawer o gamdybiaethau a chamddealltwriaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddir i asesu ymchwil, yn enwedig dulliau ansoddol megis cyfraddau dyfynnu a'r Ffactor Effaith Cyfnodolyn.<br>Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad ac yn ganllaw i'r dulliau hyn a'u defnydd priodol, a byddant yn ddefnyddiol i'r bobl hynny sy'n gweithio mewn rôl cefnogi ymchwil, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n gwneud ymchwil. |
| Python Canolradd | Mae'r gweithdy canolraddol hwn yn adeiladu ar weithdy Ymgyfarwyddo â Python drwy archwilio delweddu data drwy Matplotlib, deall geiriaduron a Pandas, gan ddefnyddio rhesymeg, llif rheoli a hidlo yn ogystal â dolen ar gyfer gweithredu côd ailadroddus |
| Adolygiadau Llenyddiaeth: offer mapio dyfyniadau | Bydd y sesiwn hon yn cynnig awgrymiadau iti wneud synnwyr o'th ganlyniadau chwilio a deall llenyddiaeth dy faes ymchwil. Dysga sut i ddefnyddio nodweddion gorau Google Scholar a chronfeydd data academaidd ar gyfer chwiliad cynhwysfawr o lenyddiaeth. |
| Adolygiadau Llenyddiaeth: Strategaethau Chwilio Effeithiol | Mae angen adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr ar brosiect ymchwil cryf. Bydd y sesiwn hon yn dy helpu i ddatblygu strategaeth chwilio effeithiol, dewis geiriau allweddol perthnasol, dewis cronfeydd data academaidd priodol a defnyddio'r 5 offeryn chwilio hanfodol i ganfod gwybodaeth o safon. |
| Literature reviews: keeping up to date<br><br>Adolygiadau Llenyddiaeth: Derbyn yr wybodaeth ddiweddara | Mae'r sesiwn hon yn edrych ar yr offer i ddarganfod cyhoeddiadau newydd sy'n berthnasol i'th waith ymchwil, gan arbed amser ac ymdrech iti o bosib: hysbysiadau am gronfeydd data; hysbysiadau am gyfnodolion; gweinyddwyr cyn argraffu a rhwydweithiau cymdeithasol academaidd. |
| Dolygiadau Llenyddiaeth: defnyddio offer AI | Mae'r sesiwn hon yn edrych ar rai o'r offer AI diweddaraf a sut y gellir eu defnyddio i ategu dulliau mwy traddodiadol o chwilio am lenyddiaeth. |
| Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil | Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor.<br><br>Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchiol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eich llwybr eich hun.<br><br>Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. |

| | |
|---|---|
| Dulliau ymchwil ansoddol: Hwyluso grwpiau ffocws | Bwriedir i'r sesiwn hon fod yn gyflwyniad i ddefnyddio grwpiau ffocws. Mae'n addas ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar neu ymchwilwyr sy'n ystyried defnyddio'r ymagwedd hon ac sy'n awyddus i ddysgu rhagor am sut i gynllunio a hwyluso trafodaeth effeithiol mewn grwpiau ffocws, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy Zoom.<br><br>Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad a throsolwg byr o fethodoleg grŵp ffocws gan gynnwys ystyried pryd a ble i'w defnyddio. Yna bydd y sesiwn yn trafod y camau ymarferol sydd ynghlwm wrth gynllunio grŵp ffocws neu gyfres o drafodaethau grŵp ffocws. Wedyn bydd sesiwn ymarferol lle caiff cyfranogwyr gyfle i gymryd rhan mewn enghraifft fer o grŵp ffocws neu i wylio eraill yn cymryd rhan. Defnyddir deunyddiau wedi'u recordio i hwyluso'r sesiwn hefyd. Bydd y pwyslais ar faterion ymarferol allweddol i fynd i'r afael â nhw. Ar ddiwedd y sesiwn bydd crynodeb sy'n amlygu ystyriaethau allweddol ac awgrymiadau ar gyfer arfer gorau. |
| Dulliau ymchwil ansoddol: Dadansoddiad Thematig Anwythol | Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad i ddadansoddi thematig anwythol. Mae ar gyfer ymchwilwyr cyfnod cynnar neu ymchwilwyr sy'n ystyried defnyddio'r dull hwn ac am ganfod mwy am sut i gynnal dadansoddiad manwl ac adrodd am eu dehongliad.<br>Bydd y sesiwn hon yn cynnwys cyflwyniad byr i'r dull gan gynnwys ystyried ble a phryd i'w ddefnyddio. Yna bydd y sesiwn yn trafod y camau ymarferol o ddadansoddi data. Bydd y sesiwn yn dod i ben gyda chrynodeb sy'n amlygu'r prif ystyriaethau wrth adrodd am ddata at ddibenion ymchwil. |
| Dulliau ymchwil ansoddol: Casglu data drwy gyfweliadau ac arolygon | Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno nifer o dechnegau casglu data ansoddol, megis cyfweliadau ansoddol (a lled-ansoddol) ag unigolion, trafodaethau grŵp ffocws a arsylwadau cyfranogwr. Hefyd, byddwn ni'n archwilio dadansoddi data, er mwyn i chi ei ddefnyddio yn eich prosiect ymchwil.<br><br>Mae ar agor i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam o'u hymgeisyddiaeth ac mae'n gwrs rhyngweithiol sy'n tynnu ar enghreifftiau ar draws y gwyddorau a phrofiadau'r cyflwynydd wrth gynnal cyfweliadau ansoddol mewn ardaloedd yn Affrica ac Asia y mae rhyfel wedi effeithio arnynt.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Dealltwriaeth o amrywiaeth o dechnegau casglu a dadansoddi data ansoddol gwahanol<br>• Y gallu i gynllunio'r defnydd o gasglu a dadansoddi data ansoddol yn eich prosiect ymchwil chi<br>Y gallu i fyfyrio ar eich rôl fel ymchwilydd yn y byd cymdeithasol a sut mae hyn yn dylanwadu ar y data a gesglir. |
| Dulliau ymchwil ansoddol: Nvivo | Mae Nvivo yn becyn meddalwedd i hwyluso'r broses o amgodio data ansoddol. Mae'n caniatáu i'r ymchwilydd ddosbarthu, trefnu ac archwilio cysylltiadau mewn data ar sail testun, e.e. trawsgrifiadau o gyfweliadau neu holiaduron, er ei fod hefyd yn |

| | |
|---|---|
| | gallu ymdrin â ffeiliau sain a fideo. Bydd y gweithdy hwn yn darparu cyflwyniad sylfaenol i Nvivo.<br><br>Bydd y gweithdy yn cynnwys:<br>a. Sut i greu prosiect Nvivo.<br>b. Cyflwyniad i amgylchedd Nvivo.<br>c. Dulliau gwahanol o amgodio data.<br>ch. Rhai ffyrdd syml o gyflwyno'r data. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Ystadegau Uwch yn R | Mae'r gweithdy cyfrifiadura hwn yn cyflwyno myfyrwyr i ystadegau uwch gan ddefnyddio'r Amgylchedd Meddalwedd R ar gyfer Cyfrifiadura Ystadegol. Bydd y gweithdy yn ymdrin â 3 prif thema:<br>• GLM - estyn y model llinellol i gynnwys data cyfrif, cyfran, deuaidd a chategorïaidd;<br>• LMM/GLMM - estyn y model llinellol i gynnwys data wedi'u grwpio/hydredol;<br>• GAM/GAMM - estyn y model llinellol i gynnwys cysylltiadau aflinol.<br><br>Ar ddiwedd y gweithdy hwn, bydd myfyrwyr wedi cael cyflwyniad i'r ymagweddau angenrheidiol i ymdrin â data nad yw'n Gausïaidd a data aflinol, yn ogystal ag ymdrin â data wedi'u grwpio/hydredol. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Ystadegau uwch: Technegau atchweliad | Mae atchweliad yn dechneg rhagfynegi sy'n amcangyfrif tebygolrwydd canlyniad, megis perchen ar dŷ, gan ddefnyddio rhagfynegyddion eraill megis cymwysterau addysgol, incwm, rhyw etc. Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o sut i gynnal atchweliad llinol, logistaidd a lluosnomaidd gan ddefnyddio meddalwedd SPSS. Bydd myfyrwyr yn dysgu:<br><br>• Pryd i ddefnyddio atchweliad<br>• Pa fath o atchweliad i'w ddefnyddio ar gyfer mathau gwahanol o ddata<br>• Tybiaethau pob math o atchweliad<br>• Sut i gynnal atchweliad ar SPSS<br>• Sut i ddehongli atchweliad<br>• Sut i lunio adroddiad am ganlyniadau'r atchweliad yng nghyd-destun y sampl a ddefnyddiwyd, gan roi sylw i duedd.<br><br>Byddwn hefyd yn cyfeirio at atchweliad Poisson a phroblemau o ran data anghyflawn ac adnoddau i fynd i'r afael â hyn. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Clinig data | Ydy rhifau anodd yn eich drysu? Ddim yn siŵr sut i ysgrifennu côd neu ddehongli allbwn rhifiadol?<br><br>Bydd y Clinig Ystadegau ar agor ar Dydd Llun bob mis o Tachwedd tan Mehefin. Bydd staff sydd â phrofiad o weithrediadau a meddalwedd ystadegol (SPSS, Mplus, Stata, R, JASP etc) yn cynnig cymorth gyda'ch cwestiynau neu'ch problemau. Mae hyn yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | • Cyngor ar y model mwyaf priodol ar gyfer eich data<br>• Gwirio allbwn ystadegol i sicrhau dehongliad priodol a chywirdeb<br>• Awgrymu meddalwedd ar gyfer dadansoddi ystadegol<br>• Cymorth i reoli, paratoi neu lanhau data<br>• Nodi adnoddau neu bobl ddefnyddiol i'ch helpu gyda phroblem anoddach.<br><br>Dewch â'r cynnwys hoffech chi gael cymorth gydag ef a gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu rhannu hyn ag aelod o'r staff y gallwch ymddiried ynddo a fydd yn cadw'r canlyniadau hyn yn gyfrinachol. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Cyflwyniad i Reoli Data | Mae rheoli a pharatoi data yn un o'r sgiliau pwysicaf i'w dysgu wrth ddefnyddio data meintiol. Mae defnyddio cydrannau data yn hwyluso dadansoddi cywir a chasgliadau cadarn. Mae paratoi data yn magu ymwybyddiaeth o gryfderau a chyfyngiadau'r data. Yn aml, nid yw'r sgiliau hyn yn cael eu haddysgu a chymerir yn ganiataol eu bod eisoes gan yr ymchwilydd, er eu bod yn aml yn cael eu nodi fel y rhan fwyaf heriol o ddefnyddio data.<br><br>Bydd y sesiwn hon yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau paratoi data o ran rheoli a glanhau. Bydd hyn ar gyfer data trawsdoriadol yn bennaf, ond darperir adnoddau defnyddiol ar gyfer data hydredol lle mae amser yn gysylltiedig.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Sut i ail-godio newidynnau<br>• Sut i labelu newidynnau<br>• Sut i ddeall a gweithio gyda data coll<br>• Sut i drin data gan sicrhau arferion da ac ymwybyddiaeth<br>• Sut i gyfuno setiau data<br><br>Gwneir hyn ar SPSS, ond yn aml gall y dysgu fynd y tu hwnt i feddalwedd a disgyblaethau. |
| Dulliau ymchwil meintiol: Cyflwyniad i SPSS | Bydd y cwrs hwn yn darparu trosolwg o'r camau dadansoddi data sylfaenol ar gyfer defnyddwyr SPSS:<br>1. Cynllun y meddalwedd<br>2. Golwg Data/Newidyn<br>3. Y ddewislen gorchmynion/defnyddio codau cystrawen yn SPSS<br>4. Agor/mewnforio ac allforio setiau data<br>5. Cynnal ymchwiliad cychwynnol i set ddata:<br>a. Ystadegau disgrifiadol<br>b. Delweddu eich newidynnau<br>c. Cyflwyniad i brofion ystadegol<br><br>Ar ddiwedd y sesiwn bydd myfyrwyr yn gallu:<br><br>1. Mewnforio ac allforio eu setiau data i SPSS |

| | |
|---|---|
| | 2. Defnyddio'r ddewislen gorchmynion a chystrawen yn ôl yr angen<br>3. Cynnal ymchwiliad cychwynnol i set ddata<br>4. Dehongli allbynnau ystadegau disgrifiadol<br>5. Creu delweddau syml ar gyfer newidynnau yn y set ddata.<br>6. Cynnal profion ystadegol syml a'u dehongli. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Cyflwyniad i Ystadegau yn R | Mae'r gweithdy cyfrifiadurol hwn yn cynnwys sylfeini sut i drin a dadansoddi data gan ddefnyddio'r Amgylchedd Meddalwedd R ar gyfer Cyfrifiadura Ystadegol. Hefyd, byddwn ni'n edrych ar sut i gyfleu canfyddiadau a storio data a chodau er mwyn gallu atgynhyrchu canlyniadau.<br><br>Bydd y gweithdy yn cynnwys:<br>• Dadansoddi data ac ystadegau, addasrwydd i'w hatgynhyrchu a'r Amgylchedd Meddalwedd R<br>• Rheoli data<br>• Delweddu Data<br>• Dadansoddi data - y model llinellol cyffredinol<br>• Dadansoddi data - Cyflwyno canlyniadau.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Sut i fewnforio, delweddu a dadansoddi data<br>• Dehongli'r data a'r dadansoddiadau'n feirniadol a chreu tablau a graffiau gwybodaeth sylfaenol i ddangos canlyniadau mathau gwahanol o fodelau ystadegol sylfaenol.<br>• Storio data a chodau ar gyfer atgynhyrchu<br>• Fformatio canlyniadau i'w cyhoeddi mewn cyfryngau gwyddonol<br>• Sut i ddysgu dulliau a phecynnau newydd yn R yn annibynnol |
| Cynnal ymchwil feintiol: Dylunio arolwg: pecyn cymorth | Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o gynnal ymchwil gan ddefnyddio arolygon - bydd yn cynnwys arolygon ar-lein yn bennaf, ond gellir defnyddio'r sgiliau hyn ar gyfer arolygon papur hefyd. Bydd y sesiwn yn dechrau drwy roi trosolwg o brosesau cynllunio, dosbarthu a chasglu arolygon. Wedyn bydd yn archwilio manteision ac anfanteision amrywiaeth o ddulliau casglu (e.e. post, ar-lein, ar y stryd fawr) a'r ystyriaethau moesegol a sut rydym yn cydymffurfio â diogelu data. Yna byddwch yn cael profiad ymarferol ac yn archwilio defnyddio Qualtrics i lunio arolygon a gwerthuso sut gallwn eu llunio i sicrhau ymrwymiad parhaus ein cyfranogwyr<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Proses ymgymryd ag ymchwil drwy arolygon<br>• Manteision ac anfanteision dulliau gwahanol<br>• Ystyriaethau moesegol a chydymffurfio â diogelu data<br>• Llunio arolwg<br>• Defnyddio Qualtrics (meddalwedd arolwg)<br>• Dulliau dosbarthu<br>• Ystyriaethau o ran dadansoddi |

| | |
|---|---|
| | |
| Rheoli Cyfeiriadau gan ddefnyddio Endnote | Dewch i'r sesiwn hon os…<br><br>Rydych eisiau arbed amser ac atal camgymeriadau yn eich rhestr dyfyniadau a chyfeiriadau, gall meddalwedd rheoli cyfeiriadau wneud eich gwaith academaidd yn haws: bydd yn cadw eich cyfeiriadau yn drefnus ac yn ddiogel, yn storio ffeiliau PDF ac yn fformatio eich cyfeiriadau yn awtomatig pan fyddwch yn ysgrifennu.<br>Mae EndNote yn feddalwedd sydd ar gael ar y campws - bydd y sesiwn hon yn cyflwyno manteision ac anfanteision y fersiynau ar-lein/bwrdd gwaith i chi ac yn eich gosod ar ben ffordd.<br><br>Ar ddiwedd y sesiwn hon…<br><br>Byddwch yn deall prif nodweddion a buddiannau fersiynau Bwrdd Gwaith ac Ar-lein EndNote.<br>Byddwch yn gallu defnyddio EndNote i gasglu a threfnu eich cyfeiriadau. |
| Cynnal ymchwil feintiol: Efelychu'r Dyfodol: Cyflwyniad i Ddynameg Systemau a Modelu ar sail Cyfrwng | Mae efelychiadau cyfrifiadurol yn offer pwerus i ddeall systemau cymhleth a rhagfynegi sut maent yn newid dros amser. Mae'r gweithdy rhyngddisgyblaethol hwn yn cyflwyno myfyrwyr ôl-raddedig i hanfodion dynameg systemau drwy fodelu cyfrifiadol.<br><br>Gan ddefnyddio'r iaith raglennu hyblyg a hygyrch R, byddwch yn dysgu sut i efelychu prosesau, gan amrywio o ymlediad afiechyd i gydbwyso cadwraeth â datblygiad dynol. Drwy enghreifftiau ymarferol, byddwn yn archwilio modelau hafaliadau differol ac ymagweddau ar sail cyfrwng i ddatgelu gwybodaeth am strwythur, ymddygiad a dyfodol posib systemau dynamig.<br><br>Er bod rhywfaint o brofiad blaenorol o R neu fodelu yn ddefnyddiol, byddwch yn dechrau o'r dechrau – gan wneud y gweithdy hwn yn berffaith i egin wyddonwyr sy'n awyddus i ddatgloi pŵer modelu. |
| Adolygiadau systematig | Yn dod yn fuan |
| Gweithio'n Wel | Gweithio'n Well: dulliau digidol ar gyfer ymchwilwyr sy'n gallu arbed amser i chi<br><br>Hoffech gael argymhellion ar gyfer dulliau ac apiau arloesol ar-lein a fydd yn eich helpu i weithio mewn modd mwy effeithlon<br><br>Mae ymchwil ar lif gwaith a chyfathrebu yn cael ei drawsnewid gan ddulliau ac apiau arloesol ar-lein sy'n gallu helpu gyda gwaith trefnu, cyd-weithio a chynhyrchiant (gweler y prosiect |

| | |
|---|---|
| | "Innovations in Scholarly Communications", er enghraifft). Bydd y sesiwn hon yn archwilio rhai o'r dulliau sydd ar gael gydag argymhellion personol ac awgrymiadau ynglŷn â'u defnydd.<br><br>Ar ddiwedd y sesiwn hon...<br><br>Byddwch wedi archwilio rhai o'r dulliau ac apiau sydd ar gael er mwyn arbed amser ac ymdrech gyda'ch ymchwil:<br><br>Trefnu nodiadau a deunydd, Datblygu syniadau, Rheoli amser, Cydweithio<br><br>Cynhelir yr hyfforddiant hwn trwy Zoom. Anfonir Dolen y Cyfarfod atoch chi cyn y digwyddiad. Sicrhewch eich bod chi'n cofrestru gan ddefnyddio eich cyfrif e-bost prifysgol Abertawe. |

| **Eich Ymchwil: Rheoli Ymchwil** | |
|---|---|
| **Teitl y gweithdy** | **Disgrifiad o'r gweithdy** |
| Dangoswch yr arian i mi! Cyflwyniad i geisiadau am gyllid ymchwil | Nid yw hi byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am gyllid ymchwil! Yn y sesiwn hon, byddwn yn archwilio amgylchedd ariannu ymchwil y Deyrnas Unedig a'r hyn y mae angen i chi ei wybod i gyflwyno cynigion prosiect cystadleuol ar ôl eich PhD. Gall ysgrifennu ceisiadau ym myd diwydiant fod yn yrfa broffidiol, felly dyma sgìl trosglwyddadwy gwych i'w ddysgu!<br><br>Erbyn diwedd y sesiwn hon, byddwch yn gallu:<br><br>• Nodi cyfleoedd ariannu sydd ar gael i chi<br>• Deall yr hyn mae arianwyr prosiectau am ei gefnogi<br>• Deall pa wybodaeth y mae ei hangen mewn cais am gyllid, a sut dylech ei chyflwyno<br>• Cyfathrebu ynghylch eich ymchwil chi mewn ffordd afaelgar i gynulleidfa anarbenigol |

| **Eich Ymchwil: Ymgysylltu ac Effaith** | |
|---|---|
| **Teitl y gweithdy** | **Disgrifiad o'r gweithdy** |
| Cylchgronau Academaidd: osgoi | Mae'r pwysau i gyhoeddi'n fythol-bresennol i ymchwilwyr ac academyddion, ac ochr yn ochr â hyn, mae cynnydd wedi bod mewn 'cyfnodolion ysglyfaethus'. Gall y rhain ecsbloetio a |

| | |
|---|---|
| cyhoeddwyr ysglyfaethus | thargedu unrhyw un, o awdur tro cyntaf yn gofyn iddo dalu i gyhoeddi, i academyddion profiadol er mwyn manteisio ar eu henwau da. Gallant ddefnyddio triciau bach megis defnyddio enwau tebyg neu frandio sydd bron gwmws yr un peth i roi argraff o ddilysrwydd.<br>Bydd y sesiwn hon yn trafod ffyrdd ymarferol o weld y gwahaniaeth, ac arwyddion rhybuddio i chwilio amdanynt wrth ddewis pa gyfnodolyn i gyflwyno eich gwaith iddo. |
| Cylchgronau Academaidd: dechrau cyhoeddi | Mae'r sesiwn hon yn esbonio sut mae'r broses yn gweithio, yr hyn y dylech chi ei wneud a phryd (e.e. cyhoeddi mynediad agored a'r angen am gyllid ar gyfer APC)<br>Mae cyhoeddi mewn cyfnodolion academaidd yn elfen allweddol o academia, ac yn gynyddol mae ymchwilwyr yn dechrau cyhoeddi'n gynharach yn eu gyrfaoedd, gan gynnwys penodau neu elfennau wedi'u hailweithio o'u traethodau PhD. Fodd bynnag, gall y broses wirioneddol o gyflwyno beri dryswch i'r rhai hynny sy'n dod ato o'r newydd. Nod y sesiwn hon yw eich cyflwyno i'r camau sylfaenol, o gyflwyno i gyhoeddi, a mynd i'r afael â rhai o'r termau a allai fod yn anghyfarwydd i awduron newydd, megis 'Tâl Prosesu Erthygl' |
| Cylchgronau Academaidd: mesur effaith ymchwil | Mae'r sesiwn hon yn ystyried y dulliau a ddefnyddir i fesur effaith ymchwil sy'n datblygu, gan gynnwys bibliometreg, sy'n gallu cynnwys cyfraddau dyfynnu, cyfraddau cyhoeddi a chydweithio sefydliadol.<br>Mae llawer o gamdybiaethau a chamddealltwriaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddir i asesu ymchwil, yn enwedig dulliau ansoddol megis cyfraddau dyfynnu a'r Ffactor Effaith Cyfnodolyn.<br>Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad ac yn ganllaw i'r dulliau hyn a'u defnydd priodol, a byddant yn ddefnyddiol i'r bobl hynny sy'n gweithio mewn rôl cefnogi ymchwil, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n gwneud ymchwil. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 1: Dod yn Ysgrifennwr Ymchwil | Hwb i'ch taith i fod yn ysgrifennwr ymchwil hyderus ac effeithiol. Datblygwch arferion ysgrifennu da ac archwilio'r offer sy'n hollbwysig i drawsnewid eich proses ysgrifennu, gan ddarganfod elfennau allweddol arddull academaidd effeithiol. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 2: Crynodeb, Cyflwyniadau a Llif | Dal sylw’r darllenydd o'r gair cyntaf, creu cyflwyniadau a chrynodebau gafaelgar sy'n amlinellu eich ymchwil, gwella'r strwythur a'r llif, esbonio gwerth unigryw eich gwaith a meistroli crefft cyflwyno gwybodaeth. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 3: Ysgrifennu beirniadol: Adolygu llenyddiaeth | Dysgwch syntheseiddio ymchwil bresennol â'ch syniadau eich hun, gan leoli eich gwaith yn y maes ehangach, darganfod ffyrdd o ddatblygu eich dadl a meithrin llais ysgolheigaidd hyderus wrth lunio adolygiadau llenyddiaeth sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch cyfraniad unigryw. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 4: | Byddwch yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng methodoleg a dulliau a'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhenodau dylunio ymchwil eich |

| | |
|---|---|
| Ysgrifennu am ddulliau ymchwil | traethawd ymchwil. Byddwch yn gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno am eich proses dylunio ymchwil. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 5: Penodau olaf a golygu | Yn y gweithdy hwn byddwch yn dysgu strwythuro eich trafodaethau a'ch casgliadau'n effeithiol, sut i gyflwyno honiadau a'u hategu'n hyderus a gadael argraff barhaol ar eich darllenwyr. Yn olaf, byddwch yn mireinio'ch sgiliau golygu i berffeithio'ch gwaith. |
| Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 6: Fformatio traethawd ymchwil | Mae gwaith wedi'i gyflwyno'n dda yn ennill graddau uwch. Bydd y gweithdy ymarferol hwn yn addysgu'r holl awgrymiadau ac argymhellion i chi er mwyn gwneud y gorau o Microsoft Word. Byddwch yn dysgu sut i fodloni safonau academaidd a rhoi golwg broffesiynol ar eich gwaith. |
| Gorffen y traethawd ymchwil a pharatoi ar gyfer eich arholiad llafar | Nod y gweithdy hwn yw cefnogi myfyrwyr ymchwil drwy gamau olaf eu gradd. Rydym yn dechrau drwy ystyried yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni arholwyr yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar. Yna byddwn ni'n archwilio'r traethawd ymchwil ei hun: sut i gyflwyno a strwythuro eich gwaith a'r broses olygu. Yna'r arholiad llafar - beth i'w ddisgwyl, sut i baratoi ac ymarfer amddiffyn eich gwaith.<br><br>Mae hyn yn agored i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam yn eu hymgeisyddiaeth (ond yn fwy priodol ar gyfer y rhai sy'n agos at gwblhau) ac mae'n gwrs dynamig, rhyngweithiol.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei arholi yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar<br>• Sut i gynllunio ar gyfer cwblhau<br>• Sut i strwythuro a chyflwyno eich traethawd ymchwil wedi'i gwblhau<br>• Sut i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar, gan gynnwys trafod eich ymchwil ac ateb cwestiynau.<br><br>Sylwer, caiff y sesiwn ei rhannu'n ddwy ran. Bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn mynychu'r ddwy ran er bod croeso i chi ymuno â'r naill sesiwn neu'r llall. Bydd egwyl rhwng 11.30am a 12.00pm.<br><br>1. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 1. Y Traethawd Ymchwil 10.00am tan 11.30am<br><br>2. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 2. Yr Arholiad Llafar 12.00pm tan 1.30pm |
| Cyfathrebwch yn hyderus i greu effaith | Ydych chi'n teimlo'n nerfus wrth siarad o flaen cynulleidfa? Eisiau gwella eich sgiliau wrth gyfleu eich ymchwil ar gyfer cyflwyniadau, sgyrsiau, eich arholiad llafar (viva) neu sgyrsiau pob dydd? Mae'r gweithdy, dan arweiniad yr hyfforddwr siarad yn gyhoeddus a'r cyfarwyddwr, Charlotte Lewis, wedi'i gynllunio i'ch helpu i oresgyn |

| | |
|---|---|
| | yr heriau hyn a siarad â mwy o rugldeb ac effaith. P'un a ydych yn ystyried sut i ymgysylltu â defnyddwyr neu randdeiliaid, cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu â byd diwydiant neu fyd masnach, neu eisiau ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o rannu negeseuon allweddol eich ymchwil - mae cyfathrebu llawn effaith yn allweddol!<br><br>Drwy weithgareddau rhyngweithiol ac adborth amser go iawn, byddwch yn meithrin technegau ymarferol i siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o leoliadau. Ar ôl 90 munud, byddwch yn cyfnewid teimladau o amheuaeth ac anghysur am hyder ac eglurder, gan deimlo'n fwy hyderus i fynegi eich hun a manteisio ar gyfleoedd newydd.<br><br>Rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol sut beth yw wynebu nerfau wrth siarad a hyder isel, ac mae'r adnoddau hyn wedi newid fy mywyd er gwell.<br><br>Dewch yn barod i gymryd rhan, gan ddod ag unrhyw senarios penodol o ran siarad yr hoffech chi gael cymorth gyda nhw. Ac os hoffech chi gael ychydig mwy o ddealltwriaeth o bwy ydw i a sut rydw i'n cefnogi pobl fy mhodlediad yw 'Speaker S.O.S!' ac mae ar gael ar y rhan fwyaf o blatfformau ffrydio.<br><br>Bywgraffiad yr Hyfforddwr:<br><br>Mae Charlotte Lewis yn ymgynghorydd ac yn hyfforddwr siarad yn gyhoeddus sy'n helpu cleientiaid i edrych, swnio a theimlo'n fwy naturiol wrth ymgymryd â chyfleoedd i siarad. Mae ei chleientiaid wedi cynnwys cyflwynwyr, perfformwyr a dylanwadwyr, perchnogion busnes, entrepreneuriaid ac ymgyrchwyr. Mae Charlotte hefyd yn cyd-gyflwyno'r podlediad 'Speaker S.O.S!' gyda'r cyflwynydd a'r artist llais Luke Davies.<br><br>Mae cefndir Charlotte ym myd y theatr, ar ôl gweithio fel cyfarwyddwr rhyngwladol am bron degawd. Ar ôl graddio o'r MFA o fri mewn Cyfarwyddo yng Ngholeg Birkbeck Llundain, mae hi wedi cydweithio â Chyfnewidfa Frenhinol Manceinion, Theatr Genedlaethol Cymru, Common Wealth Theatre, Ymddiriedolaeth Artichoke, Canolfan y Southbank, Canolfan Mileniwm Cymru, White Horse yn Shanghai, Tuida yn Ne Korea a Meta Arts yn India a mwy.<br><br>Yn fwy diweddar mae hi wedi cyfarwyddo ffilmiau brand, fideos cerddoriaeth, a gosodweithiau celf sain sydd i'w gweld ar draws prosiectau cymunedol mewn mannau fel Penrhys a'r Rhath. Ar hyn o bryd mae Charlotte ar daith The Tigerface Show o amgylch y DU.<br><br>Ar ôl wynebu ofnau siarad yn gyhoeddus, a gweld sut y cyfyngodd hynny ar ei chyfleoedd proffesiynol a phersonol, aeth Charlotte ati |

| | |
|---|---|
| | i greu ffyrdd o fanteisio ar ei chefndir yn y theatr a'i phrofiadau fel ymarferydd ioga a gwaith anadlu cymwysedig i oresgyn ei phryder. Ar ôl cael llwyddiant gyda'r technegau hyn, dechreuodd Charlotte ei busnes ei hun i rannu'r arferion hyn â mwy o bobl, gan eu helpu i gyflawni eu potensial, cysylltu â'u llais ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. |
| Rhoi llais i'ch ymchwil yn y Senedd | Gall y rhyngwyneb rhwng polisi ac ymchwil academaidd fod yn gymhleth a gall fod yn anodd mynd i'r afael ag ef. Rydych chi am i'ch ymchwil lywio polisi a disgwrs yng Nghymru, ond efallai nad ydych chi'n siŵr ble i ddechrau.<br>Bydd y sesiwn hon yn:<br><br>• Esbonio tirwedd polisi Cymru, a sut mae'r gwahanol rannau'n gweithio gyda'i gilydd;<br>• Dangos i chi pam y dylech fod yn ymgysylltu â'r Senedd, gan gynnwys enghreifftiau llwyddiannus o ymgysylltu a'i effaith;<br>• Eich helpu i ymdrin â'r ddau fyd, a deall y cyfleoedd i ymgysylltu;<br>• Cynnig awgrymiadau ymarferol ar sut i sicrhau bod eich ymchwil yn cael ei chlywed;<br>• Dangos sut gellir trosglwyddo eich sgiliau ymchwil i gyd-destunau eraill.<br><br>Mae **Dr Sarah Morse** yn Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a ariennir gan yr ESRC yn Senedd Cymru, a chaiff ei chyflogi gan Brifysgol Abertawe. Mae hi'n gweithio gydag ymchwilwyr o Gymru a'r tu hwnt i ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio trafodaeth ddemocrataidd yn y Senedd. Mae hi hefyd yn gweithio i wella dealltwriaeth yn y gymuned ymchwil o sut mae'r Senedd yn gweithio a sut i ymgysylltu'n effeithiol. Cyn ymuno â'r Senedd ym mis Chwefror 2024, bu Sarah yn gweithio am sawl blwyddyn ym myd polisi a materion cyhoeddus. |
| Sut i greu a chyflwyno poster ymchwil effeithiol | Mae creu a chyflwyno posteri ymchwil yn sgìl hanfodol ar gyfer pob myfyriwr ôl-raddedig, ond gall dylunio poster am y tro cyntaf fod yn dipyn o her. Gan fod llawer o gamgymeriadau cyffredin i'w hosgoi, mae'n syndod pa mor anodd yw creu *poster effeithiol sy'n ennyn diddordeb eich cynulleidfa ac yn esbonio eich ymchwil gyffrous*. Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn ymdrin â phob cam o'r broses creu poster, o'r cam dylunio cychwynnol hyd at argraffu a chyflwyno. Gan gynnig awgrymiadau a chanllawiau syml, bydd y gweithdy yn helpu i sicrhau bod eich poster nesaf yn haeddu ennill y wobr am y poster gorau yn eich cynhadledd nesaf.<br><br>Gan mai digwyddiadau cymdeithasol o'i hanfod yw sesiynau posteri, bydd y gweithdy hwn yn gydweithredol hefyd *gan gynnwys elfen fawr o gyfranogiad gan y myfyrwyr.* Gwahoddir cyfranogwyr i ddod â chopïau o unrhyw bosteri maent eisoes wedi'u creu i gael adborth. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r gweithdy hwn yn bennaf ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ar ddechrau eu hastudiaethau sy'n debygol o gymryd rhan yn eu cynadleddau cyntaf yn y dyfodol agos. Mae croeso hefyd i fyfyrwyr mwy profiadol sydd am gael cwrs gloywi neu glywed awgrymiadau newydd. Sylwer bod *y gweithdy hwn yn addas i gynulleidfa amlddisgyblaethol*, felly mae croeso i fyfyrwyr ôl-raddedig o bob adran. |
| Clwb Ysgrifennu Myfyrwyr Ymchwil Ôl-Raddedig | Ydych chi wedi colli'r awen ysgrifennu? Oes gennych ddyddiad cau ar y gorwel i gyflwyno eich papur nesaf neu bennod nesaf eich traethawd ymchwil? Oes angen cymhelliant ychwanegol i'ch helpu i symud ymlaen gyda'ch gwaith? Gweithgaredd misol newydd yw'r Clwb Ysgrifennu Ymchwil Ôl-raddedig, a gynhelir yn yr Hyb Ymchwil Ôl-raddedig. Ei nod yw darparu trefn, cymorth a chymhelliant i'ch helpu i gyflawni eich nodau ysgrifennu. Caiff y diwrnod ei rannu'n sesiynau pennu nodau, sesiynau ysgrifennu tawel ac egwyliau i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill i drafod eich cynnydd.<br><br>Dewch â gliniadur a syniad am nod ysgrifennu penodol ar gyfer y diwrnod. Bydd gorsafoedd docio a the/coffi ar gael. |
| Cyflwyno mewn Cynadleddau | Ydych chi'n paratoi i gyflwyno eich gwaith ymchwil mewn cynhadledd ac yn meddwl am y ffordd orau o wneud yn fawr o'r cyfle? Mae'r gweithdy hwn yn benodol ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig fel chi. Efallai eich bod yn newydd i gynadleddau academaidd neu am fireinio eich sgiliau cyflwyno, bydd y sesiwn hon yn eich helpu i droi eich syniadau'n gynllun cymhellol. Dewch â chwestiynau, ansicrwydd neu gysyniadau cynnar - a byddwch yn gadael gyda strategaethau ymarferol, ac ymdeimlad clir o gyfeiriad a'r hyder i gyflwyno eich gwaith ag effaith. |
| Cystadleuaeth 3MT | Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gyfathrebwr da?<br><br>Allwch chi esbonio eich traethawd ymchwil mewn ffordd ddarbwyllol i bobl y tu allan i'ch maes chi?<br><br>Beth am wneud hynny mewn tair munud yn unig?<br><br>Mae Thesis Tair Munud (3MT) yn gystadleuath genedlaethol sy'n gofyn i chi wneud hynny.<br><br>Mae 3MT yn herio myfyrwyr doethurol i gyflwyno eu pwnc ymchwil i gynulleidfa nad ydynt yn arbenigwyr mewn tair munud yn unig gan roi cyfle iddynt arddangos eu hymchwil a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.<br><br>Bydd cystadleuaeth 3MT Prifysgol Abertawe yn agor, cyn hir a chaiff y cynigion gorau eu cynnwys yn rownd derfynol Abertawe a gynhelir ym mis Mai a bydd yr enillwyr yn cystadlu yn y gystadleuaeth genedlaethol. |

| | |
|---|---|
| | Fel cystadleuydd 3MT, ochr yn ochr â'n hyfforddiant arferol, cewch fynediad at gymorth penodol i'ch helpu chi i baratoi eich cyflwyniad.<br><br>Cewch ragor o wybodaeth yn ein sesiynau gwybodaeth:<br><br>Cael cyngor ar sut i roi cyflwyniad gwych, a chanfod yr hyn sy'n digwydd nesaf yn y gystadleuaeth, gan gynnwys sut i gael mwy o hyfforddiant.<br><br>Mae 3MT yn gyfle gwych i ganolbwyntio ar eich ymchwil gan eich galluogi i'w hamlygu, yn ogystal â gwella eich sgiliau cyfathrebu a gobeithiwn weld mwy byth o fyfyrwyr Abertawe yn cymryd rhan eleni. |
| Sesiwn wybodaeth 3MT | Ydych chi'n meddwl y gallwch chi gyflwyno eich ymchwil yn effeithiol i gynulleidfa amlddisgyblaethol mewn tair munud yn unig? Dyna beth mae'r gystadleuaeth Thesis Tair Munud yn gofyn i chi ei wneud, ac mae'n gyfle perffaith i fireinio eich sgiliau i gyfleu eich ymchwil. Yn y sesiwn wybodaeth hon, byddwch chi'n cael rhagor o wybodaeth am y gystadleuaeth ynghyd â chyngor ar sut i roi cyflwyniad gwych a chyfleu eich ymchwil mewn ffordd sy'n ddealladwy i bawb. Byddwn ni hefyd yn esbonio sut mae'r gystadleuaeth yn gweithio a'r cymorth sydd ar gael wrth i chi gymryd rhan<br><br>Byddwch yn dysgu:<br><br>• Dealltwriaeth o'r hyn mae'r gystadleuaeth 3MT yn ei gynnwys a'r hyn sy'n gwneud sgwrs fuddugol<br>• Technegau ar gyfer esbonio eich ymchwil i gynulleidfa anarbenigol<br>• Technegau i grynhoi pwyntiau allweddol eich ymchwil mewn cyflwyniad sy'n para 3 munud. |

| **Ymgysylltu a Chymunedau Ymchwil** | |
|---|---|
| **Teitl y gweithdy** | **Disgrifiad o'r gweithdy** |
| Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil | Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor.<br><br>Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws |

| | |
|---|---|
| | y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchiol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eich llwybr eich hun.<br><br>Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. |
| Hanfodion EDI: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymchwil Ôl-raddedig Cynhwysol | Sut gallwn ni greu amgylchedd ymchwil ffyniannus sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ymagweddau, sgiliau a safbwyntiau? Pam mae eu hangen arnom? Sut gallwn ni elwa ohonynt?<br><br>Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio manteision hyrwyddo EDI mewn gweithgareddau ymchwil, strategaeth i greu system ymchwil ac arloesi fwy cynhwysol a'r hyn y mae'n ei olygu i chi wrth gynllunio a chyflwyno ymchwil. Drwy astudiaethau achos, byddwn yn arddangos ac yn trafod cyfleoedd i ymgorffori EDI mewn prosiectau ymchwil i gynhyrchu newid go iawn a thrawsnewid y ffordd rydym yn creu gwybodaeth ac effaith ar gymdeithas. |
| Sut i gynyddu eich hyder i drafod a datrys problemau gyda goruchwyliaeth. | Mae eich perthynas â'ch goruchwyliwr yn un o'r agweddau pwysicaf ar eich gradd ymchwil, ac mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud er mwyn gwneud y berthynas hon mor llwyddiannus â phosibl. Yn y sesiwn hon, byddwn ni'n archwilio cyfarfodydd goruchwylio, yr hyn sy'n creu cyfathrebu effeithiol a sut i fynd i'r afael ag adborth. Hefyd, byddwn ni'n edrych ar astudiaethau achos a bydd cyfle i geisio cyngor ar sut i wneud y gorau o'ch perthynas weithio chi â'ch goruchwylwyr.<br><br>Byddwch yn dysgu:<br>• Dealltwriaeth o'r hyn mae rôl y goruchwyliwr yn ei gynnwys, a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan eich goruchwylwyr<br>• Technegau i gynnal cyfarfodydd goruchwylio mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys derbyn adborth.<br>Hyder i drafod a datrys problemau o ran y goruchwylio. |
| Cwrs Hyfforddiant Cynghorydd Ysgrifennu Cymheiriaid | Ydych chi eisiau bod yn Ymgynghorwr Ysgrifennu i Gymheiriaidar gyfer y Ganolfan Llwyddiant Academaidd ? Ydych chi eisiau gwella eich sgiliau ysgrifennu a chael profiad hollbwysig wrth roi cyngor i bobl eraill?<br><br>Ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (PhD ac MRes), os ydych chi am gael gyrfa sy'n ymwneud ag addysgu, mentora neu reoli pobl eraill neu beidio, gall y cwrs hyfforddiant i Ymgynghorwyr Ysgrifennu i Gymheiriaid gynnig y cyfle i chi:<br><br>· Cyflwyno cais i ymuno â chymuned o ymgynghorwyr ysgrifennu taledig ym Mhrifysgol Abertawe<br>· Meithrin eich addysgeg eich hun a myfyrio ar hynny – sy'n ddefnyddiol wrth gyflwyno ceisiadau am Gymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch |

| | |
|---|---|
| | · Gwella eich ysgrifennu eich hun |
| Clwb Ysgrifennu Myfyrwyr Ymchwil Ôl-Raddedig | Ydych chi wedi colli'r awen ysgrifennu? Oes gennych ddyddiad cau ar y gorwel i gyflwyno eich papur nesaf neu bennod nesaf eich traethawd ymchwil? Oes angen cymhelliant ychwanegol i'ch helpu i symud ymlaen gyda'ch gwaith? Gweithgaredd misol newydd yw'r Clwb Ysgrifennu Ymchwil Ôl-raddedig, a gynhelir yn yr Hyb Ymchwil Ôl-raddedig. Ei nod yw darparu trefn, cymorth a chymhelliant i'ch helpu i gyflawni eich nodau ysgrifennu. Caiff y diwrnod ei rannu'n sesiynau pennu nodau, sesiynau ysgrifennu tawel ac egwyliau i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill i drafod eich cynnydd.<br><br>Dewch â gliniadur a syniad am nod ysgrifennu penodol ar gyfer y diwrnod. Bydd gorsafoedd docio a the/coffi ar gael. |